**Dyddiad cyhoeddi** Mehefin 2008

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

*National Institute for Health and Clinical Excellence*

# Trin cataractau drwy fewnblannu lensys amlffocal

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir mewnblannu lensys amlffocal yn y GIG i drin pobl sydd â chataractau. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cataractau na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chataractau, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Fodd bynnag, dylai meddygon sicrhau y cymerir camau arbennig i egluro risgiau a manteision posibl y driniaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o weld lleugylchoedd o olau o amgylch pethau gyda'r nos a phroblemau gyda disgleirdeb gyda'r nos, ac y gallai'r lensys fod yn anodd eu tynnu neu eu newid. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth.

Wrth benderfynu a yw'r driniaeth hon yn addas i glaf, dylai meddygon ystyried unrhyw ffactorau eraill hefyd sy'n gwneud sbectol yn anodd i'r claf eu defnyddio (er enghraifft, anabledd), a allai gwneud lensys amlffocal o fudd.

## Mewnblannu lensys amlffocal

*Efallai nad dyma fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer cataractau. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘mewnblannu lensys mewnllygadol amlffocal (nad ydynt yn addasu) yn ystod llawdriniaeth cataract’.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Haen gymylog ar lens naturiol y llygad yw cataract. Gall hyn arwain at broblemau gyda'r golwg a gall achosi dallineb yn y pen draw.

Mae trin cataract yn cynnwys llawdriniaeth i osod lens monoffocal artiffisial (sydd ag un cryfder ffocws yn unig) yn lle'r lens naturiol cymylog. Gyda'r math hwn o lens, fel arfer mae gan y claf olwg pell da, ond mae angen iddo wisgo sbectol ddarllen ar gyfer gwaith agos.

Mae'r driniaeth hon yn cynnwys gosod math o lens artiffisial a elwir yn lens mewnllygadol amlffocal, sy'n galluogi'r claf i ffocysu ar wrthrychau agos neu bell, gan osgoi'r angen am sbectol o bosibl. Caiff y llawdriniaeth ei chyflawni yn yr un modd â llawdriniaeth cataract arferol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn meddwl bod lensys amlffocal yn driniaeth addas i chi, dylai esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Yn arbennig, dylid esbonio y gallech brofi aflonyddwch gweledol ac y gall y lensys fod yn anodd eu tynnu neu eu newid. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon.

Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar gyfanswm o wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Dangosodd adolygiad o 10 astudiaeth fod angen i gleifion a gafodd lens amlffocal wedi'i fewnblannu wisgo sbectol llai ar ôl y driniaeth o gymharu â'r rhai a gafodd lens monoffocal: roedd angen sbectol ar 68% o gleifion ar ôl mewnblannu lens amlffocal, o gymharu â 95% o gleifion a gafodd lens monoffocal. Nododd dwy o'r astudiaethau hyn fod mwy o gleifion yn fodlon ar eu golwg gyda'r lens amlffocal o gymharu â'r rhai a gafodd y lens monoffocal, er y nododd dwy astudiaeth bellach ddim gwahaniaeth. Nododd dwy astudiaeth arall fod angen i'r cleifion y rhoddwyd lens amlffocal iddynt wisgo sbectol llai o gymharu â'r rhai y rhoddwyd lensys monoffocal iddynt.

Nododd un astudiaeth fod gan gleifion â'r lens amlffocal well golwg agos o gymharu â'r rhai y rhoddwyd lensys monoffocal iddynt. Nododd un arall fod gan fwy o gleifion â lens amlffocal well golwg agos a golwg pell na'r rhai y rhoddwyd lens monoffocal iddynt. Mewn astudiaeth arall, roedd gan hanner y cleifion y rhoddwyd lens amlffocal iddynt nad oedd ganddynt unrhyw broblemau eraill gyda'u golwg, olwg agos a phell da.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellid asesu llwyddiant y driniaeth drwy ddiffyg dibyniaeth ar sbectol, edrych ar ansawdd golwg cleifion heb sbectol, y gallu i wahaniaethu rhwng delweddau golau a thywyll ac ansawdd bywyd.

## Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr adolygiad o 10 astudiaeth, nododd pedair gyfradd uwch o aflonyddwch gweledol arall hefyd - lleugylchoedd a disgleirdeb - gyda'r lens amlffocal.

Mewn treial o 40 o gleifion, aeth capsiwl naturiol y llygad, sy'n cynnwys y lens newydd, yn gymylog ar ôl blwyddyn mewn 25% o gleifion a gafodd lensys mewnllygadol amlffocal. Mewn astudiaeth arall, a edrychodd ar 72 o gleifion a gafodd lensys amlffocal, roedd angen triniaeth laser ar 56% o lygaid oherwydd problemau gyda'r capsiwl.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau posibl sy'n deillio o'r driniaeth hon yn cynnwys problemau gyda golwg pellter canol ac aflonyddwch gweledol fel lleugylchoedd, disgleirdeb ac anawsterau mewn golau pŵl. Dywedodd y cynghorwyr arbenigol hefyd y dylai asesiad o ddiogelwch y driniaeth yn y dyfodol gynnwys gwerthusiad o aflonyddwch gweledol a'r angen i osod lensys newydd.

## Rhagor o wybodaeth am gataractau

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance.*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Mewnblannu lensys mewnllygadol amlffocal (nad ydynt yn addasu) yn ystod llawdriniaeth cataract'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael hefyd ar www.nice.org.uk/HTG170.*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1648).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7838-0 N1648 Meh 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.